

PENCAMPWYR YNG NGHYNGOR GWYNEDD

Pwrpas y ddogfen

Mae sawl cyngor wedi penodi cynghorwyr yn bencampwyr mewn gwahanol feysydd – yr un mwyaf cyffredin ydi pencampwr pobl hŷn. O bryd i'w gilydd daw cais gan wahanol grwpiau diddorderb arbennig i'r cyngor enwebu un o'i aelodau yn bencampwr ac nid oes bob amser gysondeb rhwng yr hyn a fwriedir i'r gwahanol bencampwyr ei wneud. Pwrpas y ddogfen hon yw ceisio diffinio beth yw ystyr pencampwr yng Nghyngor Gwynedd.

Pam cael pencampwr?

Diben cael pencampwyr ydi:

1. I siarad naill ai dros garfanau fyddai heb eu cynrychioli'n llawn fel arall
2. I gadw rhai materion ar flaen gwaith y cyngor er nad oes yr un cyngorydd na phwyllgor yn gyfrifol amdanyn nhw
3. I gynorthwyo Aelod Cabinet gyda'i bortffolio trwy gadw cyswllt rhwng carfannau o ddiddordeb arbennig a'r Cabinet a dod a gwybodaeth arbenigol i'r Aelod Cabinet

Pwy sy'n dewis pencampwr?

Lle mae'r maes dan sylw yn fater "gweithredol" h.y. maes sydd o fewn cyfrifoldebau'r Cabinet, yna yr Aelod Cabinet perthnasol sy'n penodi'r pencampwr. Disgwylir y bydd y pencampwr yn cael ei benodi o blith aelodau nad ydynt ar y Cabinet.

Lle mae'r maes dan sylw yn fater i'r Cyngor bydd pencampwr yn cael ei ddynodi yn rhinwedd swydd fel Cadeirydd pwyllgor perthnasol ac os oes rhagor nac un disgwylir iddynt gytuno ymysg ei gilydd pwy fydd y pencampwr.

Beth yw rôl pencampwr?

Dyma ddyletswyddau arferol pencampwr:

- Hybu'r maes a chodi ymwybyddiaeth amdano oddi fewn i'r Cyngor
- Gofalu bod y maes yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau neu ddod i benderfyniadau
- Tynnu sylw at y maes a gofalu bod yr Aelod Cabinet a chynghorwyr eraill yn gwybod am yr arferion da
- Ymgysylltu â chyrrff allanol sy'n ymwneud â'r maes
- Ymgysylltu â swyddogion a chynghorwyr eraill ynglŷn â'r rôl

- Ymgysylltu â chylchoedd cymunedol sy'n ymwneud â'r maes
- Rhoi adroddiadau i'r Aelod Cabinet am y camau sydd wedi'u cymryd.

Mae'r swydd-ddisgrifiad atodol yn cwmpasu prif ddyletswyddau pencampwr, er y gall fod mân-amrwyiaethau, yn dibynnu ar y maes.

I bwy mae pencampwr yn atebol?

Mae pencampwr yn atebol i'r sawl sy'n ei benodi ac i'r Cyngor yn gyffredinol. Disgwylir fod pencampwr yn rhoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith i'r Aelod Cabinet perthnasol ac yn fwy cyffredinol i weddill y cynghorwyr trwy fwletinau gwybodaeth.

Er mwyn osgoi gorgyffwrdd a dyblygu dylai pencampwr gynrychioli'r Cyngor ar gyrf allanol perthnasol

Swydd-ddisgrifad Pencampwr

1. Atebol i

Yr Aelod Cabinet
Y cyngor llawn

2. Pwrpas a swyddogaethau

2.1 Yn y cyngor

- Hyrwyddo'r maes dan sylw mewn perthynas â blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth y cyngor
- Cyfleu barn mudiadau a budd-ddeiliaid yn y maes dan sylw i'r Cabinet a'r Cyngor (trwy adroddiadau blynyddol neu fwletinau gwybodaeth)
- Hyrwyddo anghenion y garfan dan sylw ymhlith y rhai sy'n penderfynu ar ran y cyngor
- Cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau'r cyngor i lunio strategaethau, polisiau a rhaglenni gwaith ar gyfer y maes dan sylw
- Bod yn effro i bob mater sy'n ymwneud â'r maes
- Cyfrannu ynghylch arferion da a gwella gwasanaethau/swyddogaethau sy'n ymwneud â'r maes drwy'r amser
- Darparu gwybodaeth arbenigol i'r Aelod Cabinet am y maes dan sylw
- Ymgysylltu â'r cynghorwyr ynglŷn â'r maes dan sylw megis mynychu cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu, y cabinet a'r cyngor llawn
- Codi ymwybyddiaeth o'r maes a chymryd rhan flaengar yn hyfforddiant cynghorwyr a swyddogion lle bo'n berthnasol i'r maes hwnnw

2.2 Yn y gymuned

- Tynnu sylw at y maes yn y gymuned.
- Sefydlu trefniadau ymgysylltu rheolaidd ac effeithiol gyda dinasyddion a mudiadau cymunedol mewn materion sy'n ymwneud â'r maes hwnnw
- Arwain a chynnal mentrau lleol sy'n ymwneud â'r maes dan sylw
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn ymwneud â'r maes dan sylw
- Cyfleu ac egluro barn a phenderfyniadau'r Cyngor i fudd-ddeiliaid a mudiadau yn y maes dan sylw
- Ymgysylltu â'r maes dan sylw, ei anghenion a'i flaenoriaethau er mwyn pwysu a mesur y gwahanol ofynion a chynnig cyngor ar oblygiadau unrhyw weithredu

3. Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd mewn swydd gyhoeddus:
Cynnal ac arddangos safonau uchel o ymddygiad